# Llais Llandyrnog Voice

Mai 2020 – Cyfrol 5 – Rhifyn 8

## Cyfle i ddiolch



O naill ben y pentre i'r llall, dymuna trigolion Llandyrnog ddiolch o galon i'r holl weithwyr allweddol sy'n llafurio i ofalu amdanom ac i ddarparu a danfon nwyddau i ni – mae'r rhestr yn faith a dydyn ni ddim am anghofio am neb.

Diolch hefyd i Ros a Rob yn Swyddfa'r Post am eu gwasanaeth, ac i holl staff siop y cigydd am eu gwaith ardderchog nhw yn paratoi ac yn danfon eu cynnyrch. Maen nhw wedi addasu'n wych er mwyn i'r busnes barhau.







Ein nod yw codi'ch calon – gobeithiwn y bydd Efan, Beca Jên a Cai, a Loti a Magi yn rhoi gwên ar eich wyneb, ynghyd â'r enfys go iawn isod.



**ARHOSWCH GARTREF ▶ GWARCHODWCH Y GIG ▶ ARBEDWCH FYWYDAU**

# Diolch yn fawr

Mae ffrindiau a chymdogion Louise Eccleston ac aelodau eglwys St Tyrnog yn diolch o galon iddi am fynd ar neges iddyn nhw ac yn cadw pawb mewn cysylltiad â'i gilydd, yn enwedig y rheini nad ydyn nhw ar Facebook. Hefyd mae hi'n anfon pytiau bach doniol i wneud i bawb chwerthin – seren go iawn!

Diolch i Ian Southwick sydd wedi bod yn hel gwastraff gardd yn ddi-dâl, gwasanaeth gwerthfawr gan nad yw'r biniau gwyrdd yn cael eu casglu ar hyn o bryd.

Dymuna Jack a Chris Palin ddiolch i'r holl bobl hyfryd sydd wedi eu cefnogi yn ystod y cyfnod anodd hwn, gan gynnwys busnesau lleol, unigolion yn rhoi rhiwbob i ni, perchennog bouncing boy; Siop y Pentre, Llanrhaeadr. Diolch arbennig i Bob am ei adloniant cerddorol bob dydd!

# Pwt o newyddion y pentre

**Dymuniadau da...**

... i Ivan Butler, trysorydd a chysodydd y Llais, sy'n cyrraedd dathlu pen-blwydd arbennig ddechrau'r mis;

...i Paul a Wendy Evans, sydd wedi symud i Ddinbych – bydd colled fawr ar eich ôl yn y pentre;

... i Sue Vine, sydd wedi dod adre o'r ysbyty.

Cydymdeimlwn yn ddwys â Gwlithyn Owen yn ei phrofedigaeth ddiweddar o golli'i brawd.

**Aelodau'r Pwyllgor:**
Ruth Griffith (cadeirydd), Ivan Butler (trysorydd a chysodydd), Anwen Davies (cysodydd), Gwen Butler, Jack Crowther, Bryn Davies (tanysgrifiadau a hysbysebion), Ann ac Iestyn Jones-Evans (cyfieithwyr), Anne Rowley -Williams, Rhian Jones, Margaret a Rod Williams, Sian Gwyn-Ifan (cyfieithydd).
***Anfonwch eich newyddion a'ch erthyglau at llandyrnognews@gmail.com***




Mae Elin, disgybl yn Ysgol Bro Cinmeirch, Llanrhaeadr YC wedi dylunio poster sydd wedi'i fabwysiadu gan Uned Troseddau Cefn Gwlad Heddlu Gogledd Cymru.



*Rich a Heledd o'r Uned gyda'u posteri.*

**James Davies, A.S. Dyffryn Clwyd**
james.davies.mp@parliament.uk
Swyddfa'r etholaeth: 01745 888920
Swyddfa Westminster: 0207 2194606

# Neges o Tsieina

Mae fy rhieni, Julia a Terry Duffy, yn byw yn Llandyrnog ers blynyddoedd bellach. Ar adegau arferol, pan dwi'n ymweld â Chymru, rydw i wrth fy modd yn cerdded y mynydd-oedd, bwyta mewn tafarndai, mynd i wyliau cerdd ac ymweld â gerddi'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol – popeth mae pobl yn siŵr yn ei golli yn ystod y cyfnod dan glo presennol. Roedd fy ymweliad diweddar, fodd bynnag, yn ddirybudd ac annisgwyl.

Rydw i'n byw yn Kunming, yn nhalaith Yunnan, de-orllewin Tsieina. Ond pan soniwyd bod epidemig coronafeirws yn ymledu ar draws Tsieina ddiwedd mis Ionawr, roeddwn i'n teithio ar drên i lawr i Fietnam ar gyfer gwyliau Gŵyl y Gwanwyn. Erbyn diwedd Ionawr, roedd Swyddfa Dramor y Deyrnas Unedig yn rhoi cyngor i ni sy'n ddinasyddion y DU i adael Tsieina. Felly, penderfynais hedfan yn ôl i'r DU o Hanoi, yn lle ceisio mynd adref.

Am rai wythnosau wrth aros gyda'm rhieni yn Llandyrnog, doedd neb yn gwybod beth fyddai'n digwydd yn y dyfodol. Erbyn mis Mawrth, roedd hi'n amlwg bod yr epidemig ar ei ffordd i'r DU. Felly penderfynais fynd nôl i Tsieina cyn i lywodraeth y wlad honno gau'r ffiniau i dramorwyr (daeth hyn i rym ddiwedd mis Mawrth). Felly, mewn gair, rydw i wedi bod yn ffodus na wnes i gael y gwaethaf o'r cyfyngiadau yn Tsieina na'r DU, er bod fy nhaith yn ôl i Tsieina yn frawychus ar adegau. Roedd yn rhaid i mi fod mewn cwarantîn am bythefnos mewn gwesty arbennig ar ôl cyrraedd adre.

Roedd gadael y cwarantîn a mynd allan i'r dref lle'r oedd y gwaethaf drosodd yn rhydd-had. Ar ôl deufis caled i'r Tsieineaid, mae'r Gwanwyn go iawn wedi dod i Ddinas y Gwanwyn, Kunming (dyna mae hi'n cael ei galw am fod tywydd mor glaear yno). Mae'r mwyafrif o'r caffis a'r tai bwyta wedi ailagor ac mae trigolion y gymdogaeth hon wedi dod 'nôl i ryw fath o fywyd normal wrth fynd 'nôl a 'mlaen dan gysgod y coed jacaranda, sydd yn llawn blodau ar hyn o bryd.



Ond, dydi bywyd ddim wedi dod 'nôl i fod yn hollol normal yma. Falle fod yr epidemig wedi mynd heibio ond mae'n bosib cael ail don ohono wrth godi'r cyfyngiadau ar deithio ac ysgolion a phrifysgolion yn ailagor, a'r epidemig yn para ar draws y byd. Mae pawb yn dal i fod yn wyliadwrus iawn er mwyn cadw nhw eu hunain, eu hanwyliaid a chymdeithas yn ddiogel. Er nad oes unrhyw gofnod o dros-glwyddo'r haint yn y gymuned ar hyn o bryd, mae'r trigolion lleol yn dal i gyfyngu eu cysylltiadau cymdeithasol â theuluoedd a ffrindiau agos, er mwyn lleihau'r perygl o'r haint yn ailgydio. Yn ddieithriad, mae pawb yn gwisgo mygydau yn yr awyr agored – mae hyn yn dangos ymwybyddiaeth pawb, a'u bod yn unedig. Maen nhw'n gyffredinol yn credu bod y mygydau'n lleihau'r cyfraddau heintio.

O fewn dinasoedd, mae'n debyg y bydd rhai mesurau'n para yn eu lle hyd nes bod brechlyn wedi ei ddatblygu ac ar gael i'r cyhoedd. Felly, mae'r gymdeithas wedi gorfod addasu ei ffordd o fyw ar gyfer y tymor canolig neu'r hirdymor. Ond y newyddion da ydi, yn gyffredinol, fe allwn ni fyw bywyd eitha cyfoethog a chymdeithasol, normal er gwaetha'r addasu yma ar y ffordd rydym ni'n ymddwyn, a'r cyfyngiadau a'r monitorio. Os na fydd cynnydd sylweddol mewn achosion o'r haint, cawn fwy o ryddid i deithio rhwng y dinasoedd.

Heddiw, ac yn y dyfodol agos, dwi'n medru bwyta mewn tai bwytai, mynd i dafarndai, gweld fy nghyfeillion, ond mae cyfyngiadau ar y niferoedd er mwyn cadw'n pellter. Rydw i'n

# Neges o Tsieina: parhad



*Mesur tymheredd a sganio'r preswylwyr*

medru cerdded yn y parc, ond wrth y fynedfa, rhaid i mi sganio i mewn drwy ddefnyddio sydd â chod *QR* (Ymateb Cyflym) arno er mwyn mesur fy nhymheredd. Mewn gwirionedd, yn y rhan fwyaf o leoedd cyhoeddus fel archfarchnadoedd, canolfan siopau a swyddfeydd mawr, mae'n orfodol gwirio eich tymheredd, ac mae'r cod *QR* wedi ei gysylltu â 'chod iechyd gwyrdd' personol sy'n cynnwys olrhain hanes eich teithio a'ch cysylltiadau.

Mae nifer o bobl yn y gymuned hon yn Tsieina wedi mynegi pryder am fy nheulu a ffrindiau yn y DU, ac i bob un ohonoch chi sy'n darllen hwn. Eu neges i chi ydi, y bydd yr epidemig hwn yn cilio, bydd cyfyngiadau'n cael eu llacio, a bydd bywyd cymdeithasol yn ailddechrau. Fodd bynnag, yn y tymor canolig–hir, bydd gofynion anarferol arnom ni gyd i gydweithio â'n gilydd ac â'n gwlad er mwyn ceisio cadw'r haint dan reolaeth, a dod o hyd i bob ffordd posibl i ddod â'n cymunedau at ei gilydd fel ffynhonnell hanfodol i gynnal ein gilydd.

*Wei'ershi, jiayou* ! (Cadwch yn gryf, Gymru!)

*Seán Duffy*



*Diolch yn fawr i Seán, sy'n astudio'r iaith yn Tsieina, am yr erthygl ddiddorol hon – gan obeithio y clywn ragor ganddo yn y dyfodol!*

# Nodiadau o Blas Ashpool

Yma ym Mhlas Ashpool, mae bywyd yn dygnu 'mlaen, er bod bywyd bob dydd braidd â'i ben i waered. Ar ôl i'r ddwy ferch a'u plant mân gyrraedd rai wythnosau'n ôl, mae pethau wedi bywiogi yma.

Felly, gydag ymddiheuriadau, dyma ychydig o'n gweithgareddau dyddiol:

Diwrnod 1. Y teuluoedd yn cyrraedd. Un o Lundain, a'r llall o Ddeganwy (gyda'r plant bach a'r babi newydd). Pawb yn gyffro i gyd. Pawb yn cael ei stafell, teganau yn dod i'r fei, prydau'n cael eu trefnu, amser gwely.

Diwrnod 2. Y cathod yn trio hunanynysu, ar ôl i'r plantos ddod o hyd iddyn nhw! Rhedeg i bellafoedd yr ardd i 'ffoi' rhagddyn nhw.

Diwrnod 3. Y ferch hynaf a mam y plantos bach yn trio 'helpu'. Rhywsut yn hwfro'r cebl *wi-fi*. Y ferch arall yn tynnu gwallt ei phen – methu gosod ei rhaglen ddysgu ioga ar-lein ar gyfer ei disgyblion yn ne Lloegr. Yr awyrgylch yn llawn tensiwn.

parhad.../

Simon Barke HANDYMAN •SOLUTIONS•

www.sbhandymansolutions.co.uk

**Large range of trades – fully insured**

Interior and exterior painting and decorating
Wall and floor tiling
Guttering installed, repaired or cleared
Fence and gate building, erecting and repairs
Roof repairs and insulation
… and so much more – just ask if it's not listed here

**Please call or text**
**for a free no-obligation quote:**
**07979 431564 or 01824 790047**
**Or contact me via email or Facebook:**
**s.barke28@gmail.com**
**facebook.com/SBHandymanSolutions**

# Nodiadau o Blas Ashpool: parhad

Diwrnod 4. Siopa am nwyddau (does dim angen llawer, i ddeud y gwir – mae'r pantri'n llawn dop yn barod). Dod 'nôl a deall bod yr hyna (wrth drio 'helpu' eto) wedi bod 'yn ail-drefnu' dodrefn y tŷ. Ond rhaid cyfadde', mae'n edrych yn well.

Diwrnod 5. Cael fy neffro'n wirion o gynnar (dim gan y babis) gan lafarganu rhyfedd a sŵn anadlu drws nesa (h.y. y 'stiwdio ioga'). Mae'n rhaid bod y dysgu ar-lein wedi dechrau!

Diwrnod 6. Trio bod yn nain ufudd a phenderfynu coginio efo'r plantos. Coginio am 7 y bore ac mae'r cynhwysion ym mhobman. Cacennau rhyfedd yn y popty, a'r plant yn flawd o'u corun i'w sawdl. Y cathod wedi dianc a Nain Ffiffi wedi blino'n lân.

Diwrnod 7. Yn ddiolchgar iawn am dywydd braf a chael y plant yn chwarae'n ddiddig y tu allan. Barod i fentro i'r gwely llysiau – wrthi'n reit dda, nes i'r 'helpwyr' gyrraedd. Wedi deall, mae pridd yn gwneud yn iawn yn lle tywod! Felly, gadael fy ngwaith palu am y tro!

Diwrnod 8. Colli amcan o amser. Penderfynu cael golwg ar y pantri. Defnyddio'r ffacbys (*chickpeas*) a'r hen siytni (tua 2000). Dod o hyd i hen focs o siocled *Thorntons* wedi'i guddio tu ôl i'r bin bara Dolig diwetha' (neu ryw Ddolig arall mae'n siŵr!). Penderfynu mentro eu bwyta beth bynnag!

Diwrnod 9: Y peiriant golchi'n cael ei orlwytho – gobeithio y gwneith o bara. Wrth fy modd yn chware efo'r plant yn yr ardd. Rŵan, wedi blino'n lân – yn rhy flinedig i goginio swper. Y gŵr braidd yn biwis gan fod safon y bwyd yn gwaethygu!

Diwrnod 10. Ffrind wedi cael y firws. Byw ar ben ei hun. Galw am ambiwlans. Dim angen triniaeth ysbyty, ond i aros adref. Biti nad ydyn ni'n gallu ei helpu.

Diwrnod 11. Peiriant golchi'n dal i weithio. Mae'r lle chwech yn diodde' – y fechan ddwyflwydd wrth ei bodd yn fflysio'r dŵr!

Diwrnod 12. Hwrê! Gweld y wennol gyntaf a gobeithio y bydd mwy yn dod ati'n fuan. Y tywydd braf yn para. Gwneud camau bras yn yr ardd lysiau. Dwylo bychain yn helpu i hau hadau.

Diwrnod 13. Anghofio pa ddiwrnod ydi hi – ydi hi'n ddydd Sadwrn yn barod? Cael pleser o bethe syml bywyd. Wrth fy modd yn darllen am y gweithgareddau cymunedol ym mhobman yn y wlad.

Diwrnod 14. Mynd i siopa. Mor braf gweld pobl allan yn cerdded. Pawb wrthi fel lladd nadroedd yn eu gerddi. Siarad efo ffrind sy wedi glanhau ei thŷ o'r top i'r gwaelod. Teimlo'n euog – Plas Ashpool heb weld dystar ers wythnose.

Diwrnod 15. Y peiriant golchi llestri wedi darfod – bydd rhaid mynd 'nôl at yr hen ffordd (ddim yn ddrwg i gyd). Rydan ni i gyd yn byw bywyd llawer llai cymhleth. Mor lwcus ein bod ni'n byw yn y wlad.

Diwrnod 16. Rhywbeth tebyg i ddoe, a'r diwrnod cyn hynny. Cymryd mwy o ofal i gadw cysylltiad efo hen ffrindiau. Diwrnod prysur arall – edrych 'mlaen at fynd i 'ngwely.

A dyna sut mae hi arnon ni, ffrindie. Rhyw dderbyn pethe'n dawel erbyn hyn ac yn fwy diolchgar am bopeth sy' gynnon ni. Dim ond mwy o newyddion trist ym mhobman sydd ar y newyddion. Wrth ddygnu 'mlaen, allwn ni ddim ond gobeithio, pan ddaw pethe nôl i normal (pryd bynnag fydd hynny), y bydd ymdeimlad cryfach o ba mor werthfawr ydi bywyd a phopeth sydd gynnon ni o'n cwmpas.

Tan y tro nesa, cadwch yn saff ac yn iach, a daliwch i 'arddio'n hapus'.

*Fiona Bell*


**Cysylltwch â Green Fingers Garden Centre, Dinbych i archebu planhigion**
**Rhif ffôn: 01745 815279.**
**Cymerir archebion rhwng 10 a 12 ar foreau dydd Llun, Mercher ac Iau.**

# Y niwl a oedd yn gyndyn o godi

*Efallai eich bod chi'n cofio i niwl orchuddio Llandyrnog ym mis Ionawr a bu'n hir iawn yn codi. I ddeall hyn, fe aethon ni at un o blant Llandyrnog, yr Athro Geraint Vaughan, am esboniad. Flora (Llwyn Helyg erbyn hyn) oedd cartref yr Athro Vaughan ac fe fu'n ddisgybl yn Ysgol Glan Clwyd cyn graddio o Brifysgol Caergrawnt. Mae ganddo ddoethuriaeth mewn ffiseg yr atmosffer o Brifysgol Rhydychen. Ar hyn o bryd mae'n athro Gwyddorau'r Atmosffer ym Mhrifysgol Manceinion ac yn Gyfarwyddwyr Ymchwil i Dywydd ar gyfer Canolfan Genedlaethol Gwyddor yr Atmosffer. Felly does neb gwell i'w esbonio i ni!*



Mae'r llun uchod, a dynnwyd o Benycloddiau, yn dangos niwl, neu darth, ar lawr y dyffryn. Yr adeg hon, roedd Cymru dan ddylanwad cefnen o wasgedd uchel, gyda gwyntoedd ysgafn ac ymron ddim cymylau. Gyda nos-weithiau hir y gaeaf mae hyn yn rhoi'r amgylchiadau perffaith i ffurfio niwl, gan fod wyneb y Ddaear yn oeri drwy allyrru pelydrau isgoch i'r gofod. O ganlyniad mae'n creu haen fas (rhai medrau'n unig weithiau) o awyr oer sy'n ddigon i anwedd dŵr gyddwyso i ffurfio diferion o niwl. Fe all y niwl barhau am ddyddiau os nad yw'r tywydd cyffredinol yn newid, gan ymdewychu yn ei ddwyster a'i ddyfnder. Ond os yw'r niwl yn denau, gall golau'r haul dreiddio drwyddo gan gynhesu wyneb y Ddaear fel bod y niwl yn codi a ffurfio cwmwl isel yn ystod golau dydd, fel mae'r llun isod yn ei ddangos. Fel rheol bydd y niwl yn diflannu'n fuan ar ôl codi fel hyn.

Gwaelodion dyffrynnoedd yw'r lleoedd mwyaf tueddol i gael niwl, yn gyntaf am fod afon yno ac felly ffynhonnell o leithder, ac yn ail am fod awyr oer yn ddwysach nag awyr gynnes ac yn llifo i lawr ochrau'r dyffryn i gronni yn y gwaelod.

Nid wyf yn cofio Dyffryn Clwyd fel lle gwael am niwl pan oeddwn yn blentyn – ar wastadedd y Dyffryn ger yr afonydd yr wyf yn ei gofio gan amlaf.

Bûm ar un adeg yn byw yn Nyffryn Tafwys ger Reading, a lle difrifol am niwl oedd hwnnw! Llynnoedd wedi'u creu gan gloddio am raean oedd yn cael y bai gan y trigolion lleol, gan fod y rheiny'n cadw'r aer yn llaith. Beth bynnag fo'r achos, mae niwl ar hyd yr M4 yn peri gofid cyson i yrwyr ceir yr ardal hon yn ystod yr Hydref a'r Gaeaf. Da o beth felly yw bod trigolion Llandyrnog yn gweld niwl fel peth digon arbennig i adrodd ei hanes yn y Llais!

*Geraint Vaughan*



# Dod i adnabod... Richard Davies

***Rho ychydig o dy hanes i ni.***

Fe’m ganwyd yn Inffyrmari Dinbych 63 o flynyddoedd yn ôl a fy magu yn Bryn Ffolt ac yna symud i Hafod y Bryn yn 1971. Dipyn o gyfyng gyngor ar ôl gwneud lefel O – gadael yr ysgol, gan nad oeddwn yn mwynhau, neu fentro mynd i’r 6ed dosbarth. Diolch i un athro arbennig yng Nglan Clwyd, sef Tudur Aled Davies, cefais fy annog i fynd i’r 6ed dosbarth a cheisio am y lefel A. Yna i Goleg Amaeth Cymru yn Aberystwyth, a dyma addysg arbennig gan lond coleg o staff brwdfrydig. Diolch i Dad a Mam am fy nghefnogi drwy’r cyfnod coleg, i Mam am anfon llythyr wythnosol a £5 mewn arian parod i ’nghadw i i fynd. Wedi’r coleg cael swydd gyda’r Bwrdd Marchnata Llaeth (MMB) fel cyw o ymgynghorydd amaeth-yddol a chael fy symud i Dde Ddwyrain Lloegr. Aros mewn *lodging* yn Brighton am y chwe mis cyntaf, a oedd yn bell iawn o adre, yna symud i Newark am chwe mis arall. Wedyn sefydlu a phrynu fy nhŷ cyntaf yn Buxton yn y Peak District – ardal arbennig iawn ac yn nes at gartre.

Daeth cyfle wedyn i ddod i ddarlithio yng Ngholeg Llysfasi, gyda chyn-ddarlithydd i mi o Aberystwyth yn brifathro yno erbyn hyn, sef Fred Cunningham. Cyfnod gwych iawn yma gyda newidiadau mawr ym myd addysg ac amaeth. Yna newid swydd yn Llysfasi a dod yn rheolwr ar y fferm. Yn ystod y cyfnod yma dod yn weithgar gyda’r undeb (NFU), yn gadeirydd Sir ac yn cynrychioli'r undeb ar bwyllgorau yn Llundain.

Priodi Iona a symud yn ôl i Hafod y Bryn a magu pedwar o blant – Non, Elin, Tomos a Hywel. Wedi ugain mlynedd yn Llysfasi, roeddwn yn tynnu am yr hanner cant ac yn meddwl os oeddwn am symud swydd roedd rhaid gwneud yn fuan neu yno y byddwn hyd at ymddeol. Daeth cyfle i mi weithio gyda’r diwydiant llaeth efo’r Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB). Rwyf wedi cael cyfleoedd gwych yma i drafaelio Prydain a nifer o wledydd Ewrop yn edrych ac yn profi'r diwydiant a rheoli tîm o staff ifanc a brwdfrydig.

Diolch hefyd i Gapel y Dyffryn am gael fy ethol yn flaenor a rhoi cyfle imi gyfrannu at yr achos sydd wedi bod yn bwysig i’r teulu ers tair cenhedlaeth.

Felly dyma fi wedi ymddeol ac yng nghanol y clwy difrifol a phopeth yn stond, doedd neb wedi disgwyl hyn o gwbl.

***Beth yw dy gynlluniau ar gyfer y dyfodol?***

Saff dweud mai ar chwâl mae’r cynlluniau ar y funud! Y cynllun oedd fy mod yn ffeindio gwaith am 2–3 diwrnod yr wythnos tra mae Iona yn dal i weithio, a llenwi gweddill yr amser gyda garddio a thaclo’r rhestr waith gan Iona! Y cynllun mawr yw ein bod am fynd i drafaelio i Seland Newydd. Os bydda i’n lwcus, y ddinas y byddwn yn hoffi ymweld â hi fyddai Buenos Aires – gawn ni weld.

Mae Iona a fi yn hoff o fynd ar wyliau ac un nod arall yw mynd i wneud taith y North Coast 500 o gwmpas arfordir gogledd yr Alban. Yr unig sialens gyda hyn yw cael tywydd hyd yn oed gweddol o dda yno.

***Pa leoedd sydd wedi gadael argraff arnat ti?***

Dyma un anodd! Roedd Dad a Mam yn mynd â ni am wythnos o wyliau bob blwyddyn. Un olygfa na alla i byth ei hanghofio oedd y machlud haul a welson ni yn y porthladd yn Oban. Mae’n rhaid ei bod hi’n arbennig i wneud argraff ar rywun mor ifanc, ond roedd y lliwiau oren, coch a phorffor ar y môr yn fythgofiadwy.

Yn nes adref, yna rhaid sôn am Ben Llŷn. Bûm yn lwcus iawn o gael ymweld â ffermwyr llaeth a gweithio yma yn eithaf rheolaidd a dod i adnabod nifer o deuluoedd, ac rwyf wrth fy modd yn mynd yno i gerdded ac aros

# Dod i adnabod.. Richard Davies: parhad

ambell benwythnos. Yr unig anfantais am yr ardal yw bod eisiau ei hosgoi yn ystod gwyliau ysgol!

Llynedd buom ar wyliau yn Iwerddon. Aros y mwyafrif o'r amser yn ninas Galway a thrafaelio ar hyd rhan o'r Wild Atlantic Way o gwmpas Donegal a Connemara. Os nad ydych wedi bod yn y ddinas neu yn yr ardaloedd cyfagos, yr unig beth alla i'i ddweud yw – ewch yno! Doedd y brenin mawr ddim wedi bod yn glên iawn wrth roi tir i'r Gwyddel yn y rhan hon o'r wlad, ond am olygfeydd – heb eu hail. Yr unig beth – does dim angen rhoi'r bikini yn y ces.

Os am wres, yna mae yn anodd iawn dewis rhwng ardaloedd Tuscany neu Provence. Y ddwy ardal yn arbennig gyda phentrefi bach a gwinllannoedd hyfryd. Yr unig beth ddweda i ydi ei bod hi'n saffach dreifio yn Provence na Tuscany. Ydi wir – mae'r Eidalwyr yn ddiamynedd iawn efo dreifars!

Ond i goroni'r cwbl does 'na unlle tebyg i Ddyffryn clodfawr Clwyd – wrth ddod adref dros y bwlch, does 'na ddim golygfa debyg iddi.

**Be sy'n dy wneud di'n flin?**

Dyma un hawdd – blerwch! Alla i ddim dioddef cael gweithdy blêr, neu weld blerwch wrth gerdded a thrafaelio. Ie, ffermwyr – chi sydd oddi tani fan yma! Plastig du a bwcedi coch sydd wedi bod yn bwydo defaid yn hedfan o gwmpas y caeau. A'r peth olaf ydi giatiau sydd ddim yn hongian a chortyn yn dal popeth at ei gilydd.

**Pwy fyddet ti'n ei wahodd i swper acw?**

Y rhaglen sydd yn gwneud i mi chwerthin fwyaf yw *Have I Got News for You*, felly dwi'n siŵr y byddai Ian Hislop a Paul Merton yn gwmni difyr iawn am noson.

# Llandyrnog yn erbyn y feirws

Mae Covid-19 yn bendant yn effeithio ar bentrefi Llandyrnog a Llangwyfan, a bydd yn parhau i wneud. Rydym oll wedi gorfod newid ein ffordd o fyw i chwilio am normalrwydd newydd a'i ddatblygu, boed hynny oherwydd cyfyngiadau'r llywodraeth, pwysau ar fusnesau lleol neu rywbeth rydym wedi penderfynu'i wneud ein hunain.

Mae Cymdeithas Hanes Lleol Llandyrnog a Llangwyfan yn ceisio sicrhau ein bod yn cadw cofnod o ddigwyddiadau a newidiadau pwysig i'n pentrefi. A dyma'ch cyfle chi.

Rydym yn gofyn i chi ddechrau cadw cofnod o'r newidiadau a'r digwyddiadau lleol o ganlyniadau i'r newid yn yr amgylchiadau. Enghraifft arall ydy ysgrifennu darn sy'n disgrifio sut mae canslo cyfarfodydd yr holl glybiau a chymdeithasau a'r boreau coffi wedi effeithio arnoch chi. Efallai fod gennych luniau o'r pentrefi cyn y cyfyngiadau ac ar eu hôl, neu luniau o gefn gwlad a sut mae wedi newid gydag amser. A oes rhywun wedi gwneud ymdrech arbennig i wneud eich bywyd mor gysurus â phosibl yn ystod yr adeg annifyr a rhyfedd hon?

Fe gewch chi anfon eich gwybodaeth atom mewn unrhyw fformat. Anfonwch e-bost at llangwyfan history@hotmail.com, neu fe allwn nôl eich gwaith o'ch cartre neu o rywle canolog yn y pentref, pan ddaw'r cyfan i drefn eto. Os hoffech anfon gwaith yn ddi-enw, mae croeso i chi wneud hynny.

Helpwch ni i gasglu'r wybodaeth er mwyn i ni edrych 'nôl a chofio, a sicrhau bod cenedlaethau'r dyfodol yn gwybod am adeg 'Y Byd yn erbyn y Feirws', a'r effaith ar Landyrnog a Llangwyfan.

Yn y cyfamser, byddwch yn ddiogel ac yn iach.

Gyda diolch,

**Julia Hughes a Rona Aldrich**
Cymdeithas Hanes Lleol
Llandyrnog a Llangwyfan

# Ysgol Bryn Clwyd



*Diwrnod 'gwneud den' yn Ysgol Bryn Clwyd – gorau gweithio, cydweithio!*



*Y gwaith celf ar gastell Dinbych wedi'i gwblhau – rhan o brosiect Celfyddydau Cymru gyda'r artist gweledol, Jon Clayton. Y bwriad oedd cydweithio ag awdur a cherddor hefyd. Wedyn byddai'r plant yn defnyddio'r cwbl i greu eu gwefannau eu hunain yn hysbysebu Castell Dinbych. Gobeithio y bydd cyfle i orffen y prosiect pan fydd yr ysgol yn agor eto.*


DBP

**Denbigh Building Plastics**

*SUPPLIERS & INSTALLERS*

*U_PVC windows, doors, rockdoors, secondary double glazing, sealed units. Conservatories, porches, garage doors, fascias, gutters, dry verge system, Firestone rubber roofing and canopies.*

Unit 7
Colomendy Industrial Estate
Denbigh LL16 5TA
01745 818849

**Open Mon—Fri 7.30am—5 pm**
**Sat 9 am—12 pm**

# Ysgol Bryn Clwyd: parhad

Yr enillwyr yng nghystadleuaeth y Pasg i gynllunio golygfa yn cynnwys wy oedd:








1af:

Lillie (chwith uchod)

2il:

Daniel (dde uchod)

3ydd:

Jeff ac Ethan (chwith)



*Ewch i dudalen Facebook Ysgol Bryn Clwyd i weld lluniau fideo o'r titw tomos las sy'n nythu yno.*

# Parchu cau hawliau tramwy

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn annog pobl i barchu'r penderfyniad i gau rhai hawliau tramwy yn y sir, yng ngoleuni sefyllfa barhaus y coronafeirws.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno rheoliadau brys sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gau llwybrau troed a hawliau tramwy eraill lle mae eu defnyddio yn peri risg uchel i ymlediad coronafeirws.

Gellir gofyn neu orfodi unrhyw berson sy'n anwybyddu cau llwybr neu le o dan y rheoliadau hyn i adael a gallant fod yn destun Rhybudd Cosb Sefydlog o £60, gyda'r ddirwy honno'n dyblu am droseddu eto.

Mae'r cau yn ymwneud â llwybrau cyhoeddus yn Llandyrnog, Llangynhafal, Llanbedr Dyffryn Clwyd, Llanferres, Llanarmon yn Iâl a Llantysilio. Mae rhestr lawn ar gael ar www.denbighshire.gov.uk/cy.

Bydd hyn yn parhau i gael ei adolygu a gall newid os bydd ardaloedd yn cael eu nodi lle mae grwpiau o bobl yn ymgynnull ac yn anwybyddu mesurau a nodwyd gan y Llywodraeth.

GLYN EVANS AUTOCLINIC

Canolfan Trwsio Ceir

Ystâd Ddiwydiannol Colomendy
Dinbych LL16 5TA

GWAITH YSWIRIANT

TRWSIO CEIR AR ÔL DAMWEINIAU


CEIR I'W BENTHYG

GWASANAETH NÔL CEIR WEDI TORRI I LAWR

01745 815141
07808970364

# Gair gan y Rheithor





*Cannwyll dros y Pasg wedi'i goleuo yn eglwys St Cwyfan (chwith) ac o flaen gwaith Llan Llanast yn eglwys St Tyrnog (dde)*

Mae byw yn Nyffryn Clwyd yn beth arbennig. Mae'r bryniau o boptu iddo'n creu byd o lonyddwch a harddwch eithriadol. Fodd bynnag, yn ystod y misoedd diwethaf cafodd y llonyddwch hwnnw ei ysgwyd i'w seiliau, ac mae bygythiad y pandemig coronafeirws wedi dod yn realiti go iawn. Rydym wedi bod yn byw o dan gyfyngiadau llym ar ein gweithgarwch bob dydd ers pedair wythnos bellach, ac rydym yn gwybod pa mor anodd mae hynny wedi bod i lawer o bobl, yn enwedig y rheini sydd mewn categori agored i niwed. Serch hynny, rydym wedi gweld lefelau digynsail o haelioni a gofal yn ein cymunedau, ac mae'r pentref hwn, fel llawer i bentref arall, wedi ymateb i'r her gyda chariad a chymorth. Rydym yn diolch am y bobl sy'n helpu gyda'r siopa a'r tasgau hanfodol, neu sy'n e-bostio ac yn ffonio'r rhai ohonom sy'n teimlo'n ynysig. Mae effeithiau'r feirws yn erchyll, a hyd yn oed os nad yw wedi effeithio'n uniongyrchol ar ein teulu ni, mae'n siŵr ei fod wedi effeithio ar rywun yr ydym yn ei adnabod. Mae ein meddyliau a'n gweddïau yn bendant gyda'r rheini sy'n sâl neu sydd wedi colli anwyliaid, a hefyd gyda phob un o'n gweithwyr allweddol rheng flaen.

Nid yw byw mewn lle prydferth yn golygu na all y dinistr o'n cwmpas effeithio arnom. Ond dyma natur wrthi'n rhoi ei gwisg harddaf amdani, ac mae'r coed yn eu blodau yn brydferthwch dihafal, er bod y gwynt a'r glaw, ar adeg ysgrifennu hwn beth bynnag, yn gwneud eu gorau i ddifetha'r prydferthwch hwnnw. Nid yw sŵn traffig i'w glywed yn aml y dyddiau hyn, ac rydym yn clywed yr adar yn canu mewn ffordd wahanol iawn. Mae hwythau'n brysur yn adeiladu eu nythod, gan chwilio am y brigau a'r dail gorau i adeiladu cartref i'w cywion, cartref a fydd yn lloches saff i'w teulu rhag peryglon y byd o'u cwmpas.

Y neges inni i gyd ar hyn o bryd yw 'aros gartref', ac rydym wedi dysgu gwerthfawrogi ein cartrefi hyd yn oed yn fwy. Maent erioed wedi bod yn lle i deulu a chariad, ond rŵan yn ogystal â hynny maent yn cynnig lle i gadw'n ddiogel rhag y feirws ofnadwy hwn. Efallai ein bod yn dechrau pryderu ac yn dychryn wrth edrych ar y newyddion neu ar sgrin ein cyfrifiadur, ond mae'n bwysig cofio bod Duw yn parhau i ddal yr holl fyd yn Ei ddwylo Ef er gwaethaf popeth sy'n digwydd. Rydym newydd ddathlu'r Pasg, er bod hwnnw'n Basg gwahanol iawn i'r Pasg y byddwn yn ei fwynhau fel arfer. Ond mae ei neges yn dal yr un fath, sef bod addewid o fywyd newydd drwy Iesu Grist.

Yn ei hanerchiad ar yr argyfwng coronafeirws, diolchodd y Frenhines i'r holl weithwyr allweddol, pob un ohonynt yn cyflawni eu dyletswyddau mewn modd gwbl anhunanol er mwyn helpu eraill. Ar ddiwedd yr anerchiad, dyma hi'n cloi drwy ddweud: '*better days will return; we will be with our friends again; we will be with our families again; we will meet again*.'

Cymerwch ofal ohonoch eich hunan a'ch teulu.

Pob bendith,
*Val Rowlands*

**Hen fendith o Iwerddon**

Boed i'r ffordd godi i'th gyfarfod.
Boed i'r gwynt fod y tu ôl iti bob amser.
Boed i'r haul dywynnu ar dy wyneb;
y glaw i ddisgyn yn ysgafn ar dy gaeau.
A hyd oni chawn gwrdd eto,
boed i Dduw ddal pob un ohonom yng nghledr ei law.

# Beth rydw i wedi'i ddysgu wrth ynysu?

Wel, mi ddechreuodd y cyfan un noson yn ystod y cyfnod ynysu 'ma. Mi benderfynodd Ifan, y mab, ei bod hi'n amser iddo wneud ychydig o ymarfer corff. Ond roedd hi'n dywyll, felly dyma fo'n gofyn i mi am fenthyg fy siaced felen, lachar. Wel siŵr iawn, medde fi, helpa dy hun! Ddeng munud yn ddiweddarach, daeth i'r cyntedd. Rywfodd neu'i gilydd, roedd o wedi rhoi fy siaced fer i dros ei gôt! Wel am olwg – roedd y siaced hanner ffordd i fyny'i gefn; braidd na allai symud ei freichiau, ac roedd o'n cwyno fod ganddo boen yn ei frest ac yn fyr o wynt. Yn naturiol ddigon, mi ofynnes iddo oedd ganddo fo beswch hefyd. 'Wel nag oes', atebodd – 'y siaced 'ma sy braidd yn dynn amdana i'. Atebes i nad oedd y siaced wedi ei gwneud i ffitio dros *donkey jacket*!

Tra oedd ei fam wrthi fel lladd nadroedd yn trio agor y sip a gwneud yn siŵr bod ganddo bŷls, gofynnodd Ifan, 'Be ydi *donkey jacket*?'

Wel mi wnaeth hynny i mi ddechre meddwl. Mae 'na genhedlaeth heddiw sy falle heb glywed am y *donkey jacket,* ac o ble y daeth yr enw yn y lle cyntaf. Wel dyma ni – 'byddwch yn amyneddgar', fel maen nhw'n dweud!

Yn 1888 comisiynwyd teiliwr o'r enw George Key o Rugeley, Swydd Stafford i ddylunio a gwneud siacedi i labrwrs a oedd ar fin dechrau adeiladu Camlas Longau Manceinion – roedd rhaid iddyn nhw wrthsefyll pob math o dywydd. Pwy fase'n meddwl?

Cafodd Mr Key y syniad o ddefnyddio sach wlân – defnydd oedd yn para'n dda, yn cadw'r gwynt allan a rhoddodd ddwy boced ddofn bob ochor i'r siaced. Doedd dim enw arbennig i'r siaced. Ond gan fod y labrwrs yn gweithio gydag injans *donkey* – winshis a oedd yn cael eu pweru gan stêm neu beiriannau torri coed, ysbrydolodd hyn Mr Key i enwi ei siaced newydd yn *donkey jacket*!

Mae hyn yn f'atgoffa i o bwy oedd yn gwisgo'r siaced hon yn y blynyddoedd diweddar 'ma – Trigger, yr ysgubwr ffyrdd yn *Only Fools and Horses,* er enghraifft, a rhai o'i ddywediadau bachog – rhaid bod ganddyn nhw ysgrifenwyr sgriptiau pen-igamp:



Trigger yn egluro i Yncl Albert ei fod, yn blentyn, wedi taro ei ben yn o eger yn erbyn arwydd 'Gwyliwch eich pen' - dyna falle egluro pam oedd y geiniog 'braidd yn araf yn disgyn' ambell dro!

Yncl Albert: Sut gerddest ti i mewn i arwydd 'Gwyliwch eich pen' – welest ti mono fe?

Trigger: Wrth gwrs mod i wedi 'i weld o – ond y dyddie hynny, doeddwn i ddim yn medru darllen!!

Dro arall, wrth i Del Boy a Trigger ddwyn atgofion am aduniad ysgol:

Del Boy: 'Roedd gynnon ni Denzil yn y gôl, Monkey Harris fel cefnwr chwith… roedd gynnon ni... *camaraderie.'*

Trigger: Bachgen o'r Eidal oedd hwnnw??

Daeth y *donkey jacket* yn ddilledyn gwaith safonol gan y Bwrdd Glo Cenedlaethol – nodwedd y glowyr a oedd ar streic a'r rhai adain chwith eithafol. Er na welais i Mr Corbyn yn gwisgo un, rydw i'n siŵr, petai'n cael hanner cyfle, y byddai'n gwneud!

Pwy sy'n cofio Michael Foot yn cael ei feirniadu'n llym am wisgo *donkey jacket* mewn parêd tuag at y Senotaff yn 1981? Yn ôl ei wraig, dilledyn reit ddrud oedd o, o siop Harrods, ac yn ôl pob tebyg roedd hi'n dweud y gwir!

A sôn am Michael Foot, un o'i ddyfyniadau enwog oedd hwnnw adeg sgandal Profumo yn 1963: 'Mae aelodau'n gwasanaethau cudd ni'n ymddangos fel 'tasen nhw wedi gwario cymaint o amser o dan welyau'n chwilio am gomiwnyddion, dyden nhw ddim wedi cael amser i edrych **yn** y gwely'.

'Gwyliwch rhag y cochion o dan y gwely'.

# Beth rydw i wedi'i ddysgu wrth ynysu?: parhad

Dyddiau dedwydd!

Yn 1963, doedd Sgandal Profumo ddim yn golygu llawer i blentyn 5 mlwydd oed. Ond yn ddiweddar 'ma, mi wylies i'r gyfres, a daeth y cwbwl yn ôl i mi. Os ewch chi i ymweld â Chae Dai yn Ninbech – a plîs ewch am dro pan fydd y gwallgofrwydd yma drosodd – mae un o geir Christine Keeler yno, ac fe gewch chi'r hanes i gyd gan Sparrow.

Erbyn hyn, mae'r *donkey jacket* gyffredin wedi diosg ei harwyddocâd fel dilledyn gwaith y dosbarth gweithiol, ac mae'r steiliau, y lliwiau a'r defnyddiau cyfoes wedi golygu eu bod nhw'n rhan hanfodol o gwpwrdd dillad dynion. Ond i mi, mae hi dal yn *donkey jacket*!


Gofynnwch i Anwen – yn ôl y sôn, yn ein dyddiau caru, mi ddangosodd hi gôt roedd hi newydd ei phrynu i mi. Mi ddywedes i wrthi fod y gôt yn debyg i *donkey jacket*. [Doedd hi ddim. *Anwen*]. Dwi'n dal yn gloff ers hynny!

Pan dan ni'm yn cysgu, 'dan ni'n dysgu! (chwedl Tudur Owen! – daliwch i wenu.

*Bryn Davies*



*Michael Foot yn ei 'gôt fer, wyrddlas, ddrud' a brynodd ei wraig, Jill, iddo.*


Clwyd Williams
Family Butcher
T/A D & J Jones Ltd
4 Kinmel Terrace, Llandyrnog, Denbigh LL16 4HG Tel:01824 790300
Invoice No 1500
201
M. BRYN e ANWEN

| | | |
|---|---|---|
| MINCE | 5 | 19 |
| STEW | 5 | 83 |
| GAMMON | 3 | 36 |
| SOS | 4 | 09 |
| CHICKEN BREASTS | 6 | 61 |
| SOS ROLLS | 2 | 40 |
| | £27 | 48 |

(Happy Anniversary :-)

*Dim ond yn Llandyrnog y byddech chi'n cael nodyn personol fel hyn gyda'ch archeb am gig – diolch, Dan a'r tîm!*


J & G

TYRE SERVICES



CAR - TRUCK -
FARM TYRE SPECIALISTS
BATTERIES & EXHAUSTS

Unit 1
Dyffryn Trading Estate
Rhyl Road
Denbigh
LL16 5SJ

01745 817676
07775 717602

# Harddu'n hamgylchedd!






Diolch:

i Deiniol a Rachel am ddefnyddio'u hamser ymarfer yn bwrpasol a glanhau arwydd!

i Bryn Davies a Ruth Griffith am ofalu am y blodau ar y gylchfan a chreu sioe werth ei gweld;

i'r Parch. a Mrs Williams am addurno'r llewod a rhoi gwên ar ein hwynebau eto.



**Townsend Supplies**

**Townsend, Denbigh Ll16 3AW**
**01745 814918**

**For all farmyard & agricultural accessories & building supplies**

- Tanalised timber
- Concrete posts
- Panel fencing
- Water pipe fittings
- Water tanks
- Sand
- Cement
- Concrete blocks

# Hel meddyliau wrth hunanynysu

Rwyf wedi rhannu fy niwrnodau'n dair C yn ystod y cyfnod hwn o ynysu – cymoni ['tacluso' i chi Gogs, ond dydy hynny ddim yn dechre gydag 'c', nac'dy?!], creu a chyfathrebu.

Cyn cyhoeddi dyddiad dechrau hunanynysu gorfodol, roeddwn yn meddwl tybed pryd fyddai hynny'n digwydd ac fe gyfansoddais i'r darn canlynol:

**Waiting**

Waiting waiting waiting
For the waiting to begin.
But wait, the waiting has begun.
No longer waiting to wait
Now waiting for it to end.
How long the wait?
We must wait and see.
Perhaps the wait has ended
And I never knew
So we wait and wait and wait…

Nawr, rwy'n disgwyl wrth hunanynysu. Fel unig blentyn, roeddwn i'n gallu fy nifyrru hun pan oeddwn i'n ifanc. Ond rwy'n hoffi cwmni pobl a gan fy mod wedi fy magu mewn cymuned lofaol, agos, roedd gen i lawer o ffrindiau i rannu anturiaethau â nhw.

Dechreuodd fy hoffter o eiriau, sefyllfaoedd a chyfarfod â phobl yn gynnar iawn yn fy mywyd. Rwyf wrth fy modd yn clywed straeon pobl eraill ac rwyf wedi fy mendithio â synnwyr hiwmor hefyd. Rhaid fy mod wedi'i gael pan ges i fy medyddio. Digwyddodd hyn yn Eglwys y Santes Fair yn Aberfan ac roedd babi arall yn cael ei bedyddio yn yr un gwasanaeth. Cymerodd y Ficer fi yn ei freichiau a gofynnodd i fy rhieni bedydd fy enw i. Roedd fy rhieni wedi dewis enwau o blith y teulu – Susan Keturah Wendy. Felly, dyma'r Ficer yn fy medyddio'n Susan Keturah Wendy. Wedyn cymerodd y ficer y babi arall a gofynnodd i'r fam fedydd enwi'r plentyn. 'Dim ond Jane', oedd yr ateb. Mae'n debyg bod fy nheulu wedi dal eu gwynt ac yn meddwl tybed a fyddai'n cael ei henwi yn 'Dim ond Jane'.

Yr wythnos wedyn, cafodd bachgen bach o'r enw Dwain ei fedyddio. Yn anffodus, Pipe oedd ei gyfenw. Felly, Dwain Pipe oedd enw'r truan!

Pan gefais fy ngeni, mae'n debyg i mi ddod i'r byd â'm llygaid yn agor led y pen a bod y doctor wedi dweud fy mod i'n 'eiddgar i gyfarfod â'r byd a'i weld'.

Pan oeddwn i'n wyth oed, roedd yn rhaid i mi fod ar fy mhen fy hun am chwe wythnos oherwydd i mi gael rhyw fath o grydcymalau ac roeddwn i'n methu cerdded. Chawn i ddim ymwelwyr, felly rhoddwyd fy nghadair wrth ffenest fel fy mod i'n gallu fflachio golau fy nhortsh ar draws at ffenestri fy ffrindiau. Dwi ddim yn meddwl ein bod ni wedi defnyddio Morse cod, roedd yn debycach i ddull y Famous Five yn llyfrau Enid Blyton!

Flynyddoedd yn ddiweddarach, pan oeddwn i'n byw ym Modfari, cefais lid yr ymennydd. Roedd yn rhaid i mi orwedd ar wastad fy nghefn mewn ystafell dywyll am ddeng niwrnod. Dywedodd yr ymgynghorydd wrtha i ar ddechrau'r driniaeth, 'bydd y salwch hwn yn effeithio naill ar eich coesau neu ar eich pen'. Gweddïais, 'Arglwydd, rho'r gallu i mi ddefnyddio geiriau' a dechreuais gyfansoddi llinellau yn fy mhen. Pan oeddwn i'n gwella, dywedodd yr un ymgynghorydd, 'Mae'n rhaid eich bod chi wedi diflasu, yn gwneud dim byd ond gorwedd. Atebais, 'Nac ydw, dwi'n ysgrifennu barddoniaeth yn fy mhen'. Roedd yr olwg ar ei wyneb yntau a'r nyrs yn dweud y cyfan!

Rwyf wedi cau fy nrws yn sownd yn erbyn y nos a nawr rwy'n hel atgofion nes daw'r adeg i fod yn 'eiddgar i gyfarfod â'r byd a'i weld' eto.

*Wendy Grey-Lloyd*

# Fy nghyfnod ym Malaysia



Ar ddiwedd fy nghwrs prifysgol mewn gwaith cymdeithasol ym 1986, pan oedd geiriau fel coronafeirws a phandemig yn eiriau na fyddem yn disgwyl eu gweld ond mewn nofelau ffuglen wyddonol, cefais gynnig lleoliad chwe wythnos o hyd ym Malaysia a chyfle i ymweld â rhai o'r cyfleusterau a oedd yn cael eu darparu ar y pryd gan y llywodraeth.

Yr ymweliad cyntaf oedd â chartref ar gyfer plant ifanc a oedd ag anawsterau corfforol ac emosiynol. Roedd y cartref hwn mewn ardal wledig, ymhell o unrhyw ganolfannau poblog a deallais yn nes ymlaen fod y rhan fwyaf o'r plant, yn enwedig y merched, wedi cael eu gwahanu oddi wrth eu teuluoedd. Roedd pen pob un ohonynt wedi ei eillio oherwydd problem gyda llau. Bu cryn bryder a chynnwrf ymhlith y rhai a oedd yn gofalu, y byddwn innau hefyd yn dal y llau wrth imi benlinio i chwarae gyda'r plant. Y cyfan oedd gan y plant hyn i'w diddanu oedd darnau bach o bapur a phensiliau lliw coch. Ac felly dyma fi'n cychwyn ar fy nhaith ar nodyn o dristwch.

Gwelais lawer mwy o bethau i godi fy nghalon wrth ymweld â chanolfan ddydd i bobl ifanc ag anableddau. Roedd pob un yn cael y cyfle i ddysgu sgìl fel y byddent yn gallu chwarae rhan ystyrlon ym mywyd eu pentref ar ôl dychwelyd yno. Roedd llawer o'r dynion yn canolbwyntio ar ddysgu sut i drwsio ceir a beiciau, tra'r oedd y menywod yn dysgu sgiliau a fyddai'n eu helpu i chwarae rhan weithgar ym mywyd eu pentref. Gofynnodd un (a oedd wedi colli ei dwylo) a allai hi gael benthyg fy siaced yn ystod fy ymweliad. Wrth imi adael, dangosodd hi'r patrymau yr oedd wedi eu gwneud o bapur newydd er mwyn iddi allu cynhyrchu copïau i'w gwerthu. Roedd hi'n barod iawn i fentro!

Fy hoff ymweliad oedd mynd i ysbyty mamolaeth lle'r oedd menywod yn mynd os oedden nhw'n cael anawsterau yn ystod beichiogrwydd neu wrth roi genedigaeth. Roedd llawer ohonyn nhw'n dod o ardaloedd gwledig iawn ac roedd eu teuluoedd yn dod yn gwmni iddynt. Roeddech yn gallu dyfalu maint y teulu o weld maint y gwely gan y byddai'r holl deulu'n rhannu'r gwely hwnnw! Yn ystod eu harhosiad, roedd nifer o'r teuluoedd yn cael gwaith yn yr ardd. Gwelais dai gwydr yn llawn o wahanol fathau o degeirianau (*orchids*). Roedd eu lliwiau a'u persawr yn rhyfeddol.

Ar ôl cael fy ysbrydoli gan yr ymweliadau hyn, es ymlaen i weld sefydliad i droseddwyr ifanc. Roedd hwn yn amgylchedd llym iawn a oedd yn dilyn athroniaeth '*short, sharp, shock*'. Roedd gan rai o'r dynion ifanc greithiau ar eu cefnau ar ôl cael eu bwrw â chwip o ratan a oedd wedi ei socian mewn dŵr. Ni chefais gyfle i drafod â'r bobl ifanc hyn a oedd unrhyw fudd yn dod o'r cosbau a oedd yn cael eu defnyddio gan y staff.

Yn ystod y tri deg a mwy o flynyddoedd ers f'ymweliad a Malaysia, mae'r byd wedi newid yn ddirfawr ac rwy'n gobeithio nad yw rhai o'r arferion a welais yn parhau ar waith. Yn ystod fy ngyrfa mewn gwaith cymdeithasol, roeddwn i'n dal i feddwl am y bobl a welais i yno. Roedd gennyf ddiddordeb mawr yn y sefydliad lle'r oedd pobl ifanc yn datblygu eu sgiliau gwaith er mwyn iddynt allu gwneud cyfraniad gwerthfawr yn eu bywydau yn y dyfodol. Ar y llaw arall, nid oedd arferion y sefydliad llym i ddynion ifanc yn cyd-fynd â'm syniadau innau ynglŷn â rhoi cyfle i bobl ifanc ddatblygu mewn modd sy'n gwella eu bywydau.

O.N.: Ar ôl dychwelyd i Kuala Lumpur, prynais lyfrau tynnu lluniau, a phensiliau a *felt pens* lliw i'w hanfon at y plant ifanc.

*Jon Morgan*

# Fideo feirol

Llongyfarchiadau i Steffan Hughes, gynt o Blas Llangwyfan, ar ei lwyddiant anhygoel gyda'i fideos 'Seasons of Love', o'r sioe *Rent*, a 'From now on', o *The Greatest Showman*. Gan nad oes unrhyw sioe'n cael ei pherfformio ar hyn o bryd, llwyddodd Steffan i gael naw o gantorion o Gymru i gydganu. Mae dwy o'r ardal yn y fideo hefyd – Mared Williams o Lanfair TH a Jade Davies o Ddinbych.

Chwiliwch am 'The Welsh of the West End' ar www.youtube.com.

**Rhifau Ffôn Defnyddiol**

Canolfan Gofal Cwsmer Cyngor Sir Ddinbych — 01824 706101

Rhif ffôn Cyngor Sir Ddinbych y tu allan i oriau swyddfa — 0300 123 3068

Heddlu Gogledd Cymru 101 (heb frys)

Riportio baw cŵn 0800 2300 2345


City Travel & Tours

Local ABTA & ATOL Bonded Independent Travel Agent

Cruises, coach tours, family holidays, skiing trips, concert events, UK breaks – you name it, we can book it for you.

Karin, Lesley & Jackie have a combined 90 years of travel experience, so call us for friendly travel advice.

**We are based at Tweedmill, St Asaph**
**Tel: 01745 730321**
**Email: citytravel@tarsc.net**


# Gair gan ein Cynghorydd

Rwy'n ysgrifennu hwn ar 26 Ebrill; rwy'n gobeithio bod pawb yn ddiogel. Fel y disgwyl, mae gwydnwch pentrefwyr Llandyrnog yn amlwg yn ystod y cyfnod rhyfedd hwn yn ein hanes. Mae sawl un wedi canmol y cynigion o help i gymdogion a'r gwasanaeth gan y cigydd lleol, siop Clwyd Williams.


Wrth wisgo fy het fel Cynghorydd, 'does fawr ddim byd i'w ddweud gan fod pob cyfarfod wedi'i ganslo. Ond mae'r cyngor yn ceisio cynnal y rhain dros y we. Rwy'n cael cyfarfodydd fel hyn yn sgil fy ngwaith, ond mae Llywodraeth Cymru yn mynnu ein bod yn dal i gael cyfarfodydd dwyieithog. Rwy'n cefnogi hyn, ond mae'r dechnoleg yn peri anhawster, mae'n debyg. Mae rhai o'r gwasanaethau rydych chi wedi arfer â nhw yn brin oherwydd staff yn hunanynysu, ond mae gweddill aelodau staff y Cyngor yn darparu'r gwasanaethau statudol. Rwyf wedi bod yn cael nifer fawr o negeseuon testun, galwadau ffôn a negeseuon dros y cyfryngau cymdeithasol. Rwy'n gwneud fy ngorau glas i'w hateb – daliwch ati i'w hanfon, rwy'n fodlon helpu bob amser.

Mae hi wedi bod yn dda gweld cymaint o bobl allan yn cael ymarfer corff, boed yn gerdded neu'n seiclo, ac rydym wedi cael tywydd da ar gyfer y cyfnod hwn o aros gartref. Gofynnaf yn garedig i chi ddal ati gyda'r gwaith da a byddwch yn ddiogel wrth helpu eraill. Mae fy manylion cyswllt isod, cofiwch gysylltu ar unrhyw bwnc.

*Merfyn Parry*

**Cyngor Sir Ddinbych**

**Merfyn Parry**




**Manylion cyswllt:**

**Ffôn symudol: 07836 208446**

**E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk**

**Neu gadewch neges ar Facebook**

# Cwmni Baa Stool yn arallgyfeirio





Mae Michelle ac Ian Bartlett-Greavy, uchod, yn dangos y fisorau mae cwmni Baa Stool wedi bod yn eu gwneud yn ddiweddar – 700 ohonyn nhw. Maen nhw wedi'u danfon cyn belled ag Ynys Môn, ac mae doctoriaid yn Wrecsam ac yn nifer o'n cartrefi gofal a hosbisau lleol yn eu defnyddio.

Mae Sanna (isod) wedi bod yn gwneud masgiau wyneb ac mae 475 o'r rhain wedi'u dosbarthu hyd yn hyn. Yn y llun uchod ar y dde, fe welwch Ray, gŵr Sanna, yn gwisgo un ohonyn nhw. Mae Sanna yn defnyddio calico i'w gwneud – yn ffodus roedd Baa Stool newydd gael rholyn 100m ohono. Mae Michelle yn ei olchi ac yn ei dorri i'r maint iawn, wedyn yn ei smwddio ac yn ei roi i Sanna i'w bwytho. Sanna sydd wedi dylunio'r patrwm ei hun, gan ei bod wedi ennill cymhwyster sy'n gyfwerth â gradd mewn gwneud dillad a ffasiwn yn y Ffindir, dros gyfnod o chwe blynedd! Mae fideo ganddi i'n dysgu ni sut i wneud masg wyneb ar wefan Baa Stool: www.baastool.co.uk.




# Limrig i'r coronafeirws

Mae'n siŵr bod pawb ohonom yn teimlo fel hyn bellach.

'Di Cefin ddim fath a fo'i hun,
dio'm yn siŵr os 'di'n fora dy' Llun ,
    dy' Mawrth neu ddy' Merchar,
    dydd Iau neu ddy' Gwenar,
na fedar o'm deud p'run 'di p'run.

*Cefin Roberts*

*Diolch i Cefin am ganiatâd i gynnwys y limrig.*

**Diolch o galon i bawb sydd wedi cyfrannu at y rhifyn mawr hwn o'r *Llais*!**

Vale of Clwyd
foodbank
Banc bwyd Dyffryn Clwyd

Mae Banc Bwyd Dyffryn Clwyd yn apelio am gyfraniadau ariannol i brynu nwyddau i bobl anghenus. Cysylltwch ag Idris Humphreys ar 07833 560516 i holi sut mae cyfrannu.

Hefyd, ewch i valeofclwyd.foodbank.org.uk i gael rhagor o fanylion am waith y banc bwyd.

## Oriau agor Swyddfa'r Post

**Dydd Llun 9am–12pm, 3pm–5pm**
**Dydd Mawrth 9am–12pm, 3pm–5pm**
**Dydd Mercher 9am–12.30**
**Dydd Iau 9am–12pm, 3pm–5pm**
**Dydd Gwener 9am–12pm, 3pm–5pm**
**Dydd Sadwrn 9am–12.30**

**01824 790310**